

## **CLWB MYNYDDA CYMRU**

### **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor nos Fercher 13 Mai 2009 yn Ystafell Siabod, Plas y Brenin.**

Presennol: MT, AR, CJ, AW, LlapG, GR, IapG, MT.

Ymddiheuriadau : JAJ, GW

1. Stodin MYNYDDA Eisteddfod Y Bala
  - 1.1 Roedd pob parti wedi cytuno'r manylion. Cyfle i gwmni masnachol o hyd.
  - 1.2 Bydd y cyfieithiad o "Hillwalking" yn cael ei chyflwyno gan Alun Ffred, Y Gweinidog, i Ioan Doyle brynhawn Merched yr Eisteddfod.
  
2. Materion C M P
  - 2.1 Roedd yr hysbysebion ar gyfer swyddog mynediad Cymru yn y gweisg
  - 2.2 Adroddwyd fod yr insiwrans cyhoeddus yn ddilys ar gyfer cerdded mynyddoedd, mynydda a sgi-fynydda y tu allan i'r ynysoedd hyn.
  - 2.3 Adroddwyd fod grantiau ar gael trwy C M P ar gyfer offer a hyfforddiant. CYTUNWYD awdurdodi AR ac AD cyflwyno ceisiadau ar ran y Clwb. Yn ogystal bydd rhaid cyfrif a rhestru offer y Clwb.
  
3. Damweiniau yn Eryri  
Cytunwyd fod yr adroddiadau yn y cyfryngau am ddamwain i unigolyn profiadol wedi camarwain pobl, yn arbennig ysgolion lleol, gan fod yr unigolyn yn dringo adeg y damwain a dim yn cerdded ar un o'r llwybrau.
  
4. Cymdeithas Gwenllïan  
Gan ragweld cais i'r Clwb bod rhan o ddatliad ail-enwi copa yn y Carneddau, CYTUNWYD peidio a chytuno i unrhyw gais.
  
5. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr.  
Derbyniwyd fel gopi cywir.
  
6. Materion aelodau unigol:  
GW- cytunwyd trefnu cyfres o weithgarwch blasu ar 10 Hydref a'u marchnata.  
AD- trwy ymuno a'r Partneriaeth roedd posibl i unigolion manteisio ar gyrsiau yn rhatach. CYTUNWYD talu ar ran unigolion sydd wedi bod yn aelod am dros flwyddyn yn amodol arnynt arwain dau weithgaredd y Clwb.
  
7. Derbyniwyd adroddiad ariannol.
  
8. Teithiau Gorffennaf – Hydref 2009.  
Derbyniwyd syniadau ar gyfer teithiau yn y De a Chanolbarth ac ar gyfer dringo. Disgwylir syniadau ar gyfer dyddiau Mercher. Trafodwyd syniadau ar gyfer y penwythnosau.
  
9. C C B 2009.

Cytunwyd ar 14 Tachwedd. Ceisir eu cynnal ym Mhlas y Brenin, neu rywle arall yng Nghapel Curig. Cytunwyd fod AR ofyn i Jeremy Trumper annerch ar ôl y cinio.

10. Cyfarfod nesaf:

19:30 nos WENER 19 Medi 2009 ym Mhlas y Brenin.